



Department for Transport

Y Cyngorydd Elwyn Jones
Cadeirydd Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Oddi wrth: Y Gweinidog Gwladol
Huw Merriman AS

Great Minster House
33 Horseferry Road
Llundain
SW1P 4DR

Rhif Ffôn: 0300 330 3000
[E-Bost: huw.merriman@dft.gov.uk](mailto:huw.merriman@dft.gov.uk)

Gwefan: www.gov.uk/dft

Ein Cyf: MC/418704

16 Ionawr 2023

Annwyl Gyngorydd Jones,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr at Mark Harper ynglŷn â gwella gwasanaethau trenau yng Ngwynedd. Rwyf yn ateb yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y mater hwn.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw teithwyr ar drenau wedi derbyn eu lefel haeddiannol o wasanaeth ers cryn amser.

Mewn perthynas â gwasanaethau Avanti West Coast, prif achos y problemau diweddar gyda gwasanaethau trenau Avanti fu prinder gyrwyr trenau sydd wedi'u hyfforddi'n llawn. Mae'n hen arferiad i gwmnïau trenau ddefnyddio elfen o or-amser er mwyn rhedeg yr amserlen, fu'n fuddiol i staff a gweithredwyr fel ei gilydd. Fel y gweithredwyr eraill, roedd Avanti yn ddibynnol iawn ar yrwyr yn gwirfoddoli i weithio dyddiau ychwanegol o ganlyniad i oedi gyda'r hyfforddiant.

Ym mis Gorffennaf, peidiodd y gyrwyr oedd yn gwirfoddoli i weithio ar drenau teithwyr ar eu dyddiau gorffwys yn gyfan gwbl ac ar unwaith, a gadawyd Avanti heb yr adnoddau i redeg ei amserlen. Roedd cwtogi'r amserlen yn rhoi mwy o sicrwydd i deithwyr gan ei fod yn lleihau nifer y gwasanaethau oedd yn cael eu canslo ar fyr-rybudd. Fodd bynnag, rhwng mis Ebrill a Rhagfyr y llynedd ymunodd bron i 100 o yrwyr ychwanegol â'r gwasanaeth ffurfiol.

Mae'r amserlen a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr yn cynnwys cynnig llawer gwell i Arfordir Gogledd Cymru gyda mwyafrif y gwasanaethau cyn-Covid wedi'u hadfer. Yn hanfodol, mae'r cynnydd hwn mewn gwasanaethau wedi'i gynllunio i beidio â bod yn ddibynnol ar weithwyr yn gweithio ar eu dyddiau gorffwys.

Fodd bynnag, mae'r Adran yn ymwybodol o nifer y gwasanaethau sy'n parhau i gael eu canslo ers y newid i'r amserlen hon. Er bod mwy o wasanaethau yn rhedeg a bod Avanti wedi'i effeithio gan y gweithredu diwydiannol a brofwyd ar draws y rhwydwaith, mae'n amlwg nad yw'r perfformiad ar rai adegau wedi bod yn dderbyniol.

Mae'r Adran yn parhau i weithio'n agos gydag Avanti a'r gweithredwyr trenau eraill i fonitro perfformiad yn barhaus ac i adolygu'r opsiynau i wella perfformiad a chynyddu gwasanaethau. Mae'r cytundebau contractiol rhwng yr Adran a'r gweithredwyr yn cynnwys meincnodau perfformiad allweddol a ddefnyddir i fesur perfformiad cyffredinol pob gweithredwr. Rydym yn gweithio ar y cyd i ddatblygu amserlen wydn sy'n addas i gwrdd â'r galw gan deithwyr ac sy'n cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr.

Rydym wedi ymestyn cytundeb Avanti gyda dyfarniad byr-dymor uniongyrchol am chwe mis, sy'n ymestyn telerau'r cytundeb blaenorol hyd at 1 Ebrill 2023. Dyma gyfnod prawf i roi cyfle olaf i Avanti wella'r gwasanaethau.

Er mwyn eglurder, mae'r penderfyniad hwn yn un sy'n cadw ein opsiynau ar agor. Nid yw ymestyn y cytundeb yn rhwystro trosglwyddo'r cytundeb i weithredwr dewis olaf ar ddiwedd yr estyniad, ond byddai penderfynu yn awr i roi West Coast Partnership o dan weithredwr dewis olaf yn tynnu'r cyfle i gadw arbenigedd sector preifat.

Y materion sydd wedi wynebu Avanti yw'r union resymau pam bod angen inni foderneiddio'r rheilffyrdd, er mwyn sicrhau bod amserlenni dibynadwy ar gael i deithwyr pryd bynnag y byddant yn teithio, ac na fyddant yn ddibynnol ar weithwyr yn gweithio gor-amser yn y lle cyntaf.

Mewn perthynas â'ch sylwadau ehangach am ansawdd y gwasanaethau trenau, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i drawsnewid rheilffyrdd Prydain drwy ein Plan for Rail¹ a gyhoeddwyd y llynedd.

¹ www.gov.uk/government/publications/great-british-railways-williams-shapps-plan-for-rail

Bydd corff cyhoeddus newydd, Great British Railways, yn rhedeg ac yn cynllunio'r rhwydwaith, yn berchen ar yr isadeiledd ac yn derbyn y referniw o brisiau'r tocynnau. Bydd hefyd yn gyfrifol am osod cytundebau ar gyfer gwasanaethau i deithwyr, gosod yr amserlen a mwyafrif y prisiau.

Y teithwyr fydd yn dod gyntaf, gan wobrwyo gweithredwyr trenau i gyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n lân ac yn gyffyrddus, ac yn brydlon. Fel sydd wedi'i nodi yn y Plan for Rail, bydd Llywodraethau Cymru a'r Alban yn parhau i ymarfer eu pwerau presennol ac yn atebol yn ddemocrataidd drostynt. Ni fydd pwerau, swyddogaethau a chyfrifoldebau yr awdurdodau datganoledig wedi'u lleihau. Bydd Great British Railways yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cael budd o'r diwygiadau i'r rhwydwaith ehangach. Mae'r diwygiadau hyn yn ceisio gwella gwasanaethau, cysondeb a chydlynid ar draws y wlad.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i wella cysylltedd trawsffiniol, ac adnabod yr atebion trafnidiaeth sy'n gweithio orau i bobl a busnesau.

Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod gweithrediad rheilffyrdd Trafnidiaeth i Gymru yn cael ei reoli'n llwyr gan Lywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â HS2, gallai'r gyfnewidfa arfaethedig yn Crewe ddarparu gwell cyfleoedd ar gyfer teithiau i Ogledd Cymru a lleihau amseroedd teithiau i Lundain a Birmingham. Gellir cynyddu'r cyfleoedd i wella cysylltedd i Gymru o Ogledd Lloegr a'r Alban ymhellach o HS2 drwy'r gwasanaethau sy'n defnyddio Crewe Northern Connection.

Diolch i chi eto am eich llythyr. Gobeithiaf fod y wybodaeth o ddefnydd i chi.

Yn gywir,



HUW MERRIMAN AS

YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DRAFNIDIAETH